Shoned Wyn Jones

ADNABOD AWDUR

Enw
Shoned Wyn Jones

Dyddiad Geni
Ebrill 5ed 1958

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Cefais fy ngeni yn Nyffryn Ogwen, a'm magu o pan oeddwn yn ddwyflwydd tan yn bedair ar ddeg yn Llangefni ac yna yn Llangristiolus, Ynys Môn, cyn dychwelyd i Ddyffryn Ogwen.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Penrallt, Llangefni ac Ysgol Gynradd yr Henblas, Llangristiolus. Ysgolion Uwchradd Llangefni a Dyffryn Ogwen.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Ro'n i'n casáu Mathemateg, Cemeg a Ffiseg am yr unig reswm nad o'n i'n dallt dim arnyn nhw! Ro'n i wrth fy modd yn siarad efo fy ffrindiau (ac yn mynd i drwbwl lawer gwaith am wneud hynny), Addysg Grefyddol a Chymraeg, ac eisteddfod yr ysgol.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?
Athrawes.

Beth oedd eich hoff lyfr pan yn blentyn?
Pwt a Moi – mae'n gywilydd gen i ddweud nad ydw i'n cofio enw'r awdur; holl gyfres y *Famous Five*, Enid Blyton, ac yna *Te yn y Grug*, Kate Roberts.

Beth yw eich prif ddiddordebau?
Darllen, treulio awr neu ddwy yn y clwb iechyd cyfagos, gwylio ffilmiau a mynd am dro ar hyd traeth.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Bod ym Mhen Llŷn ar ddiwrnod braf o haf efo fy mab, Rheon.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Pobl straegar, a phlant sy ddim eisiau gwrando yn y dosbarth!

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Pan oeddwn i'n fy arddegau.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Fory Ddaw.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Yn weddol hawdd unwaith mae'r syniad wedi gafael – cael amser ynghanol gwaith ysgol yw'r broblem.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
O sylwi ar bopeth o gwmpas, o brofiad bywyd ac o ddychymyg gweddol fyw.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
I ddal ati ac i ddod i adnabod eich cymeriadau'n dda.

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Mae rhannau ohona i yn llawer ohonynt.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Adlais.

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Mari Watcyn yn *Fory Ddaw*.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Hoffwn i fod yn fwy disgybledig a hefyd peidio bod ofn pechu pobl.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Ally McBeal, Eastenders a Rownd a Rownd.

Beth yw eich hoff fwyd?
Bwyd Eidalaidd, ac unrhyw bwdin sy'n cynnwys cnau, meringue neu lemwn – yn ddelfrydol y tri efo'i gilydd!

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
Fy ffrindiau a phobl hunan-bwysig.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
Llyfrau ar y We

CYNGOR LLYFRAU CYMRU 2003

Fe'm ganed yn Nyffryn Ogwen, ym Methesda, cyn symud i dreulio 'mhlentyndod yn Sir Fôn – yn Llangefni i ddechrau ac yna i Langristiolus a oedd yn lle delfrydol i chwarae ar hyd y caeau ac yn y coedwigoedd. Ar brydiau mi dybiaf mai 'Sir Fonan' ydw i, gan i mi fyw yno tan yn bedair ar ddeg oed, ond mae rhannau ohona i yn Nyffryn Ogwen hefyd yn ogystal â thynfa gref tuag at Ben Llŷn gan mai un o'r fan honno oedd fy nain. Mi fydda i bob amser yn teimlo 'mod i 'di cyrraedd adre wrth basio'r Eifl. Dwi'n byw ym Mangor nawr efo fy mab Rheon.

Mi dwi wedi fy nhrwytho mewn llyfrau a straeon er pan oeddwn i'n blentyn bach. Byddai 'nhad yn dweud straeon di-ri wrtha i a'm chwaer cyn i mi ddechrau mynd i'r ysgol, a'r athrawes yn ôl bob sôn wedi rhyfeddu at fy nawn!

Dwi ddim yn cofio pryd y dechreuais i sgwennu, ond dwi'n cofio dweud wrth Mam pan oeddwn i tua deuddeg oed 'mod i'n mynd i sgwennu nofel rhyw ddiwrnod. Parhaodd y brwdfrydedd yma ynof pan o'n i yn y Brifysgol ym Mangor yn astudio Cymraeg. Mwynheais y rhan fwyaf o'r cwrs gradd, ond llawer haws i mi oedd cyflawni'r tasgau creadigol yn hytrach na thraethawd ar Lywarch Hen!

Mi fydda i 'n cael gafael ar gymeriad yn gyntaf, ac wrth ddod i adnabod y cymeriad yma y mae'r stori amdano fo neu hi yn tyfu. Mi fydda i'n gofyn i mi fy hun: 'A fydda [enw'r cymeriad] yn gwneud hyn?' Mi fydda i'n meddwl am y cymeriadau fel pobl go iawn yn fy mywyd, a thrist o beth ar ddiwedd nofel neu stori yw ffarwelio â nhw.

Mi fyddwn i ar goll heb gael sgwennu, ac felly hefyd heb gael darllen. Un o'r pethau fydda i'n ceisio ei wneud gyda'r disgyblion yn yr ysgol yw dangos iddyn nhw pa mor bwysig yw llyfr. Gallwch ddianc i fyd arall drwy ddarllen neu drwy greu deunydd darllen. Os oes ynoch chi'r awydd i greu – peidiwch â'i anwybyddu. Ewch ati, a mwynhau!

Llyfrau Shoned Wyn Jones sydd mewn print:

Adlais
Y Lolfa
£3.95
1991

Gwirioni
(Enillydd Gwobr Tir na n-Og 2002)
Y Lolfa
£4.95
2001

Fory Ddaw
Y Lolfa
£4.95
1989

Lluniau: Martin Roberts